

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (HEOL  
Y PARC, Y FENNI, SIR FYNWY) (GWAHARDD  
CERBYDAU DROS DRO)  
2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn Heol y Parc, y Fenni yn Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A40 o'r enw Heol y Parc sy'n ymestyn o bwyt 31 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwyt yr ynys wrth gyffordd Frogmore Street i gyfeiriad y dwyrain hyd at y terfyn rhwng eiddo 1 a 2 Northleigh ar Heol y Parc, y Fenni.

Y llwybr arall ar gyfer yr holl draffig sy'n dymuno cyrraedd man i'r dwyrain o'r darn a fydd ar gau fydd dilyn y gwyrdd wrth Gylchfan Ffordd Aberhonddu er mwyn ymuno â'r A4143 tua'r de hyd at Gylchfan Union Road, yna parhau tua'r de ar yr A4143 Ffordd Merthyr ac ymuno â'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd tua'r dwyrain hyd at Gylchfan Hardwick er mwyn ailymuno â'r A40. I'r gwrthwyneb ar gyfer yr holl draffig sy'n dymuno cyrraedd man i'r gorllewin o'r darn a fydd ar gau.

Gellir cael mynediad i eiddo lleol ar hyd yr A40 hyd at y manau y naill ochr a'r llall i'r darn o'r ffordd a fydd ar gau.

Bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol yn ysbeidiol rhwng 20:00 o'r gloch ar 30 Ionawr 2023 a 06:00 o'r gloch ar 30 Ebrill 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynon, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (PARK ROAD,  
ABERGAVENNY, MONMOUTHSHIRE)  
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)  
ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Park Road, Abergavenny in the County of Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A40 trunk road known as Park Road that extends from a point 31 metres north-west of the centre-point of the island at the junction of Frogmore Street in an easterly direction to the boundary between properties 1 and 2 Northleigh on Park Road, Abergavenny.

The alternative route for all traffic wishing to access east of the closure will be diverted at Brecon Road Roundabout to join the southbound A4143 to Union Road Roundabout, then continue southbound on the A4143 Merthyr Road and join the eastbound A465 Heads of the Valley Road to Hardwick Roundabout to re-join the A40. Vice versa for all traffic west of the closure.

Access to local premises will be available along the A40 up to the points each side of the closure.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate intermittently from 20:00 hours on 30 January 2023 until 06:00 hours on 30 April 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government